**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

18 Ionawr 2016

Annwyl Aelod Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r newyddion diweddaraf ichi am y trafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Swyddfa'r Comisiynwyr Traffig (OTC) ynghylch cyflogi Comisiynydd Traffig penodol i Gymru.

Fy nod yw sicrhau newid cam wrth gam yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Comisynydd yng Nghymru, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gwasanaethau bysiau. Byddai'r Adran Drafnidiaeth yn parhau i ariannu deiliad y swydd i gyflawni ei gyfrifoldebau presennol. Fodd bynnag, ar yr amod bod cytuno ynghylch y gost, byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Comisiynydd i gynnal y gweithgareddau ychwanegol a mwy dwys yr hoffwn i eu gweld – megis cydweithio agosach gyda chwmnïau ac awdurdodau lleol, hybu rhagor o gydymffurfio, camau unioni ar fyrder ac felly llai o darfu ar wasanaethau. Byddem hefyd yn ariannu'r costau ychwanegol o dri aelod staff wedi'u cyflogi gan yr Asiantaeth Gyrrwyr a Gwasanaethau Cerbydau (DVSA), ond wedi'u lleoli yng Nghymru i helpu'r Comisiynydd gyda'r gweithgareddau ychwanegol hyn, a byddai hefyd yn darparu gwasanaeth dwyieithog sydd â galw mawr amdano.

Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i fod yn gyfrifol am benodi ac/neu gael gwared o unrhyw Gomisiynydd, ond ag ystyried unrhyw drefniant ariannu, byddem yn disgwyl ymgynghori â Gweinidogion Cymru fel rhan o'r broses honno.

Mae fy swyddogion i yn parhau i weithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn yr OTC a'r DVSA i gwblhau'r trefniant, yn amodol ar gadarnhau'r costau ychwanegol. Rwy'n gobeithio y bydd yn bosibl gwneud cyhoeddiad yn fuan. Yn y cyfamser, byddaf yn parhau i'ch hysbysu o'r datblygiadau.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.